

Y CYFANSODDIAD ADRAN 17

RHEOLAU GWEITHDREFNOL CONTRACTAU

1 Egwyddorion Sylfaenol

- 1.1 Nodau'r Rheolau Gweithdrefn Contractau (y Rheolau) ydy:-
- (a) Sicrhau y cydymffurfir â'r holl ofynion cyfreithiol;
 - (b) Sicrhau'r gwerth gorau;
 - (c) Sicrhau tryloywder, bod yn agored, peidio â gwahaniaethu a chystadleuaeth deg;
 - (d) Dangos uniondeb, cysondeb, atebolrwydd a chywirdeb;
 - (e) Cefnogi nodau corfforaethol y Cyngor, sef gwerth am arian, arferion gorau ac arweinyddiaeth; a
 - (f) Sicrhau y cydymffurfir â Strategaeth Gaffael y Cyngor a Pholisi Caffael Llywodraeth Cymru.
- 1.2 Mae egwyddorion tryloywder, peidio â gwahaniaethu a chydraddoldeb yn rhwymedigaethau sy'n berthnasol i bob proses gaffael a rhaid cydymffurfio â hwy bob amser.
- 1.3 Os yw'r Rheolau'n darparu y caiff Prif Swyddog wneud penderfyniad, caiff y Prif Swyddog perthnasol ddirprwyo'r penderfyniad yn ysgrifenedig i Swyddog arall.
- 1.4 Mae'r Cod Ymarfer Caffael a'r Canllaw Cynllunio Caffael yn ddogfennau atodol i'r Rheolau hyn fel y nodir.
- 1.5 Y Prif Swyddog Cyllid a TGCh sy'n gyfrifol am adolygu'r Rheolau hyn, gan roi unrhyw gyngor neu arweiniad, gwneud mân newidiadau, neu argymhell newidiadau sylweddol i'r Cyngor pan fo hynny'n ofynnol. Dylid adolygu'r Rheolau o leiaf bob tair blynedd.
- 1.6 Mae Prif Swyddogion yn gyfrifol am sicrhau bod pob Swyddog yn eu hadrannau yn ymwybodol o ofynion y Rheolau (ac unrhyw ganllawiau, polisïau neu weithdrefnau cysylltiedig) a'u bod yn cydymffurfio â hwy bob amser.
- 1.7 Nid oes modd i'r Rheolau hyn, na'r canllawiau, y polisïau na'r gweithdrefnau cysylltiedig, gynnwys pob digwyddiad posibl a allai godi. Os ceir unrhyw amheuaeth, dylid bob amser ofyn i'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh am gyngor a dylai ysbryd y Rheolau gael eu dilyn bob amser.
- 1.8 Mae geirfa lawn o'r termau ariannol ar gael fel atodiad i'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol a'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau.

2 Statud

- 2.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor dan a.135 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wneud rheolau sefydlog i sicrhau cystadleuaeth ac i reoleiddio'r broses gaffael.
- 2.2 Rhaid i'r Cyngor hefyd gydymffurfio â statudau amrywiol eraill wrth brynu nwyddau, gwaith neu wasanaethau, gan gynnwys y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (fel y'i diwygiwyd gan yr Offeryn Statudol (OS), Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2020) (y "Rheoliadau"). Ni fwriedir i unrhyw beth yn y Rheolau hyn ddiystyru deddfwriaeth genedlaethol na Rheoliadau Contractau Cyhoeddus.
- 2.3 Mae risgiau peidio â chydymffurfio yn sylweddol ac maent yn cynnwys dyfarnu iawndal a chontractau'n cael eu neilltuo.

3 Cydymffurfio

- 3.1 Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i'r canlynol a wna'r Cyngor neu a wneir ar ei ran:-
 - (a) Prynu'r holl nwyddau, gwasanaethau neu waith;
 - (b) Consesiynau*;
 - (c) Mewn amgylchiadau lle mae'r Cyngor yn caffael nwyddau, gwaith neu wasanaethau ar ran trefniant gweithio cydweithredol; a
 - (d) Mewn amgylchiadau lle mae'r Cyngor yn ceisio partner masnachol ar gyfer cyd-fenter.
- 3.2 Mae pob cyfeiriad at y Rheolau hyn yr un mor berthnasol i a) i d) uchod fel sy'n briodol fel y cynghora'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh. Mae pob Swyddog yn gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir â'r Rheolau hyn.
- 3.3 Rhaid i drydydd partïon sy'n gweithredu ar ran y Cyngor hefyd gydymffurfio â'r Rheolau. Rhaid i swyddogion sy'n cyfarwyddo trydydd partïon i gaffael contractau roi copi o'r Rheolau i'r trydydd parti.
- 3.4 Rhaid i swyddogion a thrydydd partïon sicrhau bod unrhyw wrthdaro buddiannau'n cael ei osgoi. Rhaid datgan unrhyw wrthdaro buddiannau wrth y rheolwyr llinell priodol fel y nodir yn y Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion. Rhaid i Swyddogion gael cyngor cyfreithiol os oes posibl i unrhyw wrthdaro effeithio ar berthnasoedd contractiol.
- 3.5 Mae llwgrwobrwyo a llygredigaeth yn drosedd. Rhaid i bob Swyddog sy'n gosod, yn rheoli neu'n goruchwyllo contractau weithredu yn unol â'r safonau priodoldeb uchaf a sicrhau y cedwir cofnodion digonol.

- 3.6 Y Prif Swyddog Cyllid a TGCh fydd yn datrys unrhyw wahaniaethau yn y ffordd y caiff y rheolau hyn eu dehongli ar y cyd â'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid.
- 3.7 Nid yw'r Rheolau hyn berthnasol i werthu, prydlesu na phrynu tir nac unrhyw fuddiant mewn tir nac unrhyw gontract cyflogaeth na benthyciadau i brynu, cyflwyno na phrynu unrhyw gyfranddaliadau neu asedau ariannol tebyg eraill.
- 3.8 Nid yw'r Rheolau hyn yn berthnasol i gontractau a ddyfernir yn yr amgylchiadau canlynol
- 3.9 Unrhyw gontractau rhwng y Cyngor a chwmni sy'n cael ei reoli ganddo (cyfeirir ato weithiau fel cwmni 'Teckal') neu
- 3.10 Unrhyw gontractau rhwng y Cyngor a chwmni sy'n cael ei reoli ar y cyd gan y Cyngor gydag awdurdod contractio arall; neu
- 3.11 Unrhyw gontract sy'n sefydlu neu'n gweithredu cydweithrediad rhwng y Cyngor ac awdurdod contractio arall gyda'r nod o sicrhau bod y gwasanaethau cyhoeddus y mae'n rhaid iddynt eu cyflenwi yn cael eu darparu gyda golwg ar gyflawni amcanion sydd ganddynt yn gyffredin a lle bo rhediad y cydweithrediad yn cael ei lywodraethu dim ond gan ystyriaethau sy'n ymwneud â budd y cyhoedd a bod yr awdurdodau contractio cyfrannog yn cyflawni ar y farchnad agored lai nag 20% o'r gweithgareddau dan sylw gan y cydweithrediad hwnnw; neu
- 3.12 Unrhyw gontract gwasanaeth y dyfarna'r Cyngor i awdurdod contractio arall ar sail hawl unigryw sydd gan yr olaf o'r ddau yn unol â chyfraith, rheoliad neu ddarpariaeth weinyddol gyhoeddedig sy'n gydnaws â'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (a elwir yn "TFEU" hefyd).
- 3.13 Gyda chontractau sy'n dod o fewn yr eithriadau yn 3.8, rhaid cael cyngor ysgrifenedig gan y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid i sicrhau bod y rheolau penodol sy'n ymwneud â'r eithriadau'n weithredol ac i sicrhau bod y broses ddyfarnu yn dod tu allan i gwmpas y Rheolau hyn.
- 3.14 Gellir caniatáu nwyddau, gwasanaethau neu waith ychwanegol o fewn cwmpas contract sy'n dod o fewn 3.8.1 a 3.8.2 uchod a rhaid iddynt gydymffurfio â pharagraffau 12.7, 12.8 a 12.9 isod. Gallai fod yn bosibl cynyddu cwmpas contract sy'n dod o fewn 3.8.1 a 3.8.2, ond cyn ceisio gwneud hynny, rhaid i'r Swyddog baratoi achos busnes sy'n dangos gwerth am arian. Rhaid i broses o gynyddu cwmpas contract sy'n dod o fewn 3.8.1 a 3.8.2 uchod gydymffurfio â'r egwyddorion cyffredinol a nodir ym mharagraff 12.5 isod, a rhaid sicrhau awdurdod ysgrifenedig blaenorol gan y Prif Swyddog a'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh.
- 3.15 Wrth gyfrifo cyfanswm gwerth contract, rhaid defnyddio'r egwyddorion canlynol i bennu cyfanswm ei werth:

- 3.16 Y cyfanswm sy'n daladwy dros gyfnod y contract ynghyd ag unrhyw gyfnod o estyniad, heb gynnwys TAW, gan gynnwys unrhyw fath o opsiynau ac unrhyw broses o adnewyddu'r contract gan holl Wasanaethau'r Cyngor sy'n defnyddio'r contract;
- 3.17 Os yw'r contract a ddyfernir yn cynnwys lotiau, y cyfanswm sy'n daladwy ar gyfer yr holl lotiau, heb gynnwys TAW, gan gynnwys unrhyw fath o opsiynau ac unrhyw broses o adnewyddu'r contract gan holl Wasanaethau'r Cyngor sy'n defnyddio'r contract
- 3.18 Ar gyfer trefniadau prynu ar y cyd, gwerth y contract ydy cyfanswm gwariant y ddau barti dan y contract.
- 3.19 Ar gyfer contractau cyfnod amhenodol, rhaid cyfrifo'r gwerth fel pe bai'n gontract pedair blynedd.
- 3.20 Ni chaiff unrhyw swyddog weithredu neu beidio â gweithredu gyda'r bwriad o isrannu prosesau caffael neu daliadau er mwyn osgoi'r Rheolau neu unrhyw ran o'r Rheolau neu'r Rheoliadau.
- 3.21 Ymdrinnir â rheolau ar gyfer grantiau neu drefniadau gweithio cydweithredol yn Adrannau F a G o'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol.

4 Canlyniad Torri Amodau

- 4.1 Gallai methu â chydymffurfio ag unrhyw rai o'r rheolau hyn gael ei ystyried fel achos o dorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion a gallai arwain at gamau disgyblu ac achos cyfreithiol yn erbyn y Swyddog neu'r trydydd partïon dan sylw. Ni chaiff unrhyw swyddog weithredu neu beidio â gweithredu i geisio osgoi'r Rheolau boed hynny'n fwriadol neu'n fyrbwyll.
- 4.2 Gallai unrhyw Swyddog sy'n methu â dilyn y Rheolau golli amddiffyniad yr indemniad a roddar'r Cyngor i Swyddogion ac felly fe allent fod yn bersonol atebol am gontract neu am unrhyw golledion.
- 4.3 Pan ddaw'n amlwg y bu achos o ddiffyg cydymffurfio â'r Rheolau rhaid i'r Prif Swyddog roi gwybod i'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh ar unwaith. Rhaid i'r Prif Swyddog lunio adroddiad yn amlinellu'r rhesymau dros beidio â chydymffurfio, a'r camau a gymerwyd i atal hyn rhag digwyddiad eilwaith.
- 4.4 Os yw'r achos o dorri'r Rheolau'n achos difrifol, bydd y Pennaeth Gwasanaeth, Archwilio a Thechnegol yn cyflwyno adroddiad i'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh a'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid gydag argymhellion priodol cyn adrodd wrth y Pwyllgor Archwilio.

5 Adolygu

- 5.1 Bydd y Prif Swyddog Cyllid a TGCh yn adolygu'r Rheolau hyn a bydd ganddo'r awdurdod i wneud mân newidiadau fel sy'n ofynnol neu i adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth.
- 5.2 Rhaid i unrhyw newidiadau mawr gael cydsyniad y Cyngor llawn ar ôl i'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd Gweithredol ystyried y mater.
- 5.3 Bydd y Prif Swyddog Cyllid a TGCh yn adolygu'r Cod Ymarfer Caffael a'r Canllaw Cynllunio Caffael a bydd ganddo'r awdurdod i wneud y cyfryw newidiadau a'r diweddariadau sy'n ofynnol.
- 5.4 Caiff y Rheolau eu hadolygu'n llawn bob tair blynedd.

6 Contractau Corfforaethol

- 6.1 Caiff contractau corfforaethol eu diffinio fel contractau a gymeradwywyd gan y Prif Swyddog Cyllid a TGCh i swyddogion eu defnyddio. Tybir eu bod yn cydymffurfio â'r Rheolau ac yn rhoi gwerth am arian.
- 6.2 Rhaid i swyddogion sicrhau bob amser bod contract corfforaethol cyfredol ar waith cyn dechrau gweithgaredd caffael newydd.
- 6.3 Os oes contract Cyngor yn bodoli, rhaid ei ddefnyddio oni bai bod y contract yn caniatáu defnyddio ffordd arall o weithredu a bod y Prif Swyddog Cyllid a TGCh yn awdurdodi hynny.

7 Fframweithiau

- 7.1 Mae contract fframwaith yn gytundeb gyda chyflenwyr sy'n sefydlu'r telerau sy'n rheoli contractau a ddefnyddir i archebu nwyddau, gwasanaethau neu waith neu eu trefnu 'yn ôl y gofyn'.
- 7.2 Ni chaniateir ond defnyddio fframweithiau pan:-
 - (a) Mae'r gwaith, y nwyddau neu'r gwasanaethau sy'n ofynnol wedi'u nodi'n glir yn y fframwaith; a
 - (b) Mae'r fframwaith yn caniatáu i'r Cyngor gyfranogi; ac
 - (c) Mae'r fframwaith yn glynu wrth nodau'r Rheolau.
- 7.3 Rhaid i Swyddogion sicrhau eu bod yn dilyn rheolau'r fframwaith sy'n nodi sut gall contractau unigol gael eu trefnu yn ôl y gofyn. Yn aml, bydd hyn yn cynnwys gweithgaredd caffael pellach, y cyfeirir ato fel mini-gystadleuaeth. Rhaid gofyn am gyngor a chymeradwyaeth gan y Prif Swyddog Cyllid a TGCh cyn dechrau unrhyw drefniant uniongyrchol 'yn ôl y gofyn' neu ymarferiad cystadlu pellach.

- 7.4 Rhaid meddu ar dystiolaeth o awdurdod i sefydlu cytundeb fframwaith newydd drwy gyflwyno a chymeradwyo 'Ffurflen Cyfarwyddyd - Caffael a Chontractau' wedi'i llofnodi gan y Prif Swyddog, y Pennaeth Gwasanaeth a'r Swyddog perthnasol o'r Uned Comisiynu, Caffaeliaid a Rheoli Contract cyn dechrau'r gweithgaredd caffael. Rhaid i'r 'Ffurflen Cyfarwyddyd - Caffael a Chontractau', yn ychwanegol at y gofynion safonol, nodi'n glir uchafswm gwerth y cytundeb fframwaith, ystod yr awdurdodau contractio sy'n gallu galw oddi arno a'r trefniadau monitro yn benodol o safbwynt cyfanswm y gwariant dan y fframwaith a chydymffurfio â gweithdrefnau contractau yn ôl y gofyn.
- 7.5 Ni chaiff unrhyw gytundeb fframwaith a sefydlir gan y Cyngor fod yn fwy na chyfnod contract pedair blynedd oni bai y ceir amgylchiadau eithriadol sydd wedi'u cadarnhau ac sy'n ymwneud â thestun y cytundeb fframwaith. Os yw cytundeb fframwaith yn fwy na chyfnod 4 blynedd, yna rhaid i'r rhesymau am hyn gael eu nodi yn y 'Ffurflen Cyfarwyddyd – Caffael a Chontractau' i sefydlu cytundeb fframwaith newydd (gweler 7.4).
- 7.6 Ni chaiff unrhyw awdurdod contractio alw oddi ar gytundeb fframwaith a sefydlwyd gan y Cyngor oni bai bod yr awdurdod contractio wedi llofnodi cytundeb mynediad gyda'r Cyngor. Rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh gynghori ar y math o gytundeb mynediad sydd fwyaf priodol.

8 Cyflenwyr Mewnol

- 8.1 Gall amrywiol wasanaethau gael eu darparu'n fewnol yn y Cyngor neu gan gwmnïau a reolir gan y Cyngor, (gweler rheol 3.8). Gall y Prif Swyddog Cyllid a TGCh roi cyngor ar ddefnyddio'r gwasanaethau hyn.

9 Cyd-gaffael neu Gaffael Cydweithredol

- 9.1 Mae'n arfer da ystyried gweithio gydag eraill naill ai'n fewnol neu'n allanol lle gellid bod manteision i gyd-gaffael gyda meysydd gwasanaeth eraill neu gyrrff cyhoeddus eraill er mwyn cael arbedion maint ac atal dyblygu.
- 9.2 Rhaid ceisio cyngor gan y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid ynglŷn â'r math mwyaf priodol o gytundeb ar gyfer gweithgaredd cyd-gaffael ac ynglŷn â dosbarthu'r risg rhwng y partïon.
- 9.3 Os yw'r Cyngor yn gyfrifol am unrhyw gaffael dan y cyfryw gyd-drefniadau sy'n arwain at fod y Cyngor yn ymrwymo i gontract gyda chyflenwr, rhaid i'r Rheolau gael eu dilyn.
- 9.4 Os oes Contract neu Fframwaith ar waith gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yna rhaid i'r Cyngor ddefnyddio'r trywydd caffael hwnnw i gael holl nwyddau, gwasanaethau a gwaith y Cyngor o fewn cwmpas y Fframwaith neu'r Contract.

10 Awdurdod i Fwrw Ymlaen

- 10.1 Cyn dechrau proses gaffael, mae'r Prif Swyddog yn gyfrifol am sicrhau bod yr awdurdod a'r gyllideb briodol wedi'u sefydlu. Bydd y math o awdurdod yn dibynnu ar y gwerth, ar bwysigrwydd strategol y contract arfaethedig, y goblygiadau i'r gyllideb a'r risgiau.
- 10.2 Os yw'r gwasanaethau sy'n cael eu caffael yn ddibynnol ar gyllid grant yna dylai'r Prif Swyddog sicrhau bod y risg na fydd cyllid ar gael tra pery'r contract yn cael ei hadlewyrchu yn nhelerau'r contract h.y. cymalau dirwyn i ben yn fuan.
- 10.3 Mae gofyn cyflwyno 'Ffurflen Cyfarwyddyd – Caffael a Chontractau' i'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh ar gyfer penderfyniadau i gaffael unrhyw contract a fframwaith sy'n werth mwy na £25,000. Rhaid cyflwyno'r Ffurflen hon cyn dechrau'r gweithgaredd caffael.

11 Yswiriant

- 11.1 Mae swyddogion yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl gontractwyr a ddewisir yn darparu tystiolaeth ysgrifenedig o yswiriant digonol ar gyfer atebolrwydd cyhoeddus, atebolrwydd cyflogwyr ac, os oes angen, indemniad proffesiynol tra pery'r contract.
- 11.2 Rhaid i'r lefelau indemniad adlewyrchu'r risg i'r Cyngor a bydd, fel arfer ar gyfer pob un contract, yn:-
 - a. £10m ar gyfer yswiriant atebolrwydd cyhoeddus;
 - b. £5m ar gyfer yswiriant atebolrwydd cyflogwyr;
 - c. £1m i 5m ar gyfer yswiriant indemniad proffesiynol;
 - d. leiaf £5 miliwn ar gyfer indemniad meddygol ar gyfer contractau gwasanaethau iechyd y cyhoedd.
- 11.3 Gallai'r lefelau gofynnol gael eu gostwng yn dilyn caniatâd ysgrifenedig y Prif Swyddog Cyllid a TGCh naill ai fel digwyddiad unigryw mewn perthynas â chontract penodol neu, os cytunwyd ar drefniadau eraill, ar gyfer mathau penodol o gontract. Rhaid i'r Swyddog ystyried problemau a risgiau yswiriant cyn dechrau proses gaffael a cheisio unrhyw gymeradwyaeth angenrheidiol cyn cyhoeddi'r gwahoddiad i dendro.
- 11.4 Mewn rhai amgylchiadau, gellid bod angen cael sicrwydd yswiriant arbenigol a rhaid i'r Prif Swyddog holi'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh ymlaen llaw.
- 11.5 Mae gwybodaeth bellach i'w chael yn Adran 4.1 o'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol.

12 Math o Gontract

- 12.1 Rhaid nodi'r math o gontract. Rhaid i delerau ac amodau cymeradwy'r contract gael eu cyflwyno gyda phob Dyfynbris Ffurfiol neu Dendr Ffurfiol. Dylai Prif Swyddogion geisio cyngor cyfreithiol cyn gynted â phosibl o safbwynt paratoi neu ddefnyddio dogfennau contractiol priodol gan gynnwys telerau ac amodau ar gyfer ymarferiad caffael penodol. Cyfrifoldeb y Prif Swyddog sy'n rheoli'r broses dendro neu'r contract ydy cael y cyfryw gyngor.
- 12.2 Nid yw Adran 12.1 yn berthnasol i gontractau yn ôl y gofyn oddi ar fframweithiau. Yn ogystal, mewn amgylchiadau priodol, gellir defnyddio safonau'r diwydiant megis PSPC, NEC, JCT, JClI, ACE, RIBA ac ICE gyda chymalau safonol ychwanegol y Cyngor i gwmpasu rhyddid gwybodaeth a materion eraill sy'n benodol i lywodraeth leol. Os ystyrir defnyddio'r safonau hyn rhaid i Brif Swyddogion ymgynghori gyda'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid, a chael cymeradwyaeth briodol ganddo.
- 12.3 Ni chaiff Llythyrau o Fwriad ond eu defnyddio mewn amgylchiadau eithriadol a chyda cydsyniad y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid.
- 12.4 Caiff contractau sy'n werth llai na £500,000 gael eu llofnodi gan ddau swyddog awdurdodedig yn unol â'r Cynllun Dirprwyo a geir yn y Cyfansoddiad. Rhaid i gontractau am £500,000 neu fwy gael eu selio fel gweithred gan y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid.
- 12.5 Mae newid mewn contract, fel ymestyn cyfnod y contract (yn ychwanegol at unrhyw gyfnod estyniad a gynhwysir yn y contract gwreiddiol), neu newid yn unrhyw rai o'r termau neu ymestyn cwmpas y nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau, yn cael ei alw'n amrywiad yn y contract. Wrth ddrafftio'r fanyleb ar gyfer y Gwahoddiad i Dendro (ITT), mae'n arfer da darparu ar gyfer amrywiad mewn geiriau clir, cryno a diamwys sy'n nodi cwmpas yr amrywiad(au) a ganiateir a dan ba amodau y bydd yr amrywiad(au) yn weithredol, cyn belled nad yw'r cyfryw amrywiad(au) yn newid natur gyffredinol y contract. Er enghraifft, gallai'r ITT nodi nwyddau, gwaith neu wasanaethau ychwanegol y gellir eu cynnwys yn y contract i'r dyfodol, neu nodi estyniad yng nghyfnod y contract.
- 12.6 Mewn perthynas â chaffaeliadau sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau, ni chaiff amrywiadau mewn contractau ond eu caniatáu os yw'r amrywiad yn syrthio i un o'r categorïau a restrir yn Rheoliad 72 o'r Rheoliadau neu fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd. Rhaid i amrywiadau i gontractau o'r fath gael eu cofnodi yn ysgrifenedig a rhaid iddynt gael eu hawdurdodi gan y Prif Swyddog a'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh. Bydd y Prif Swyddog Cyllid a TGCh yn cyhoeddi hysbysiadau priodol i gydymffurfio â gofynion Rheoliad 72.
- 12.7 Ar ar gyfer caffaeliadau islaw'r trothwyon a ddiffinnir yn y Rheoliadau, ni chaiff swyddogion wneud amrywiadau a fyddai'n ymestyn y contract y tu hwnt i'r cwmpas gwreiddiol neu a fyddai'n cynyddu pris y contract fwy nag 20% yn

ychwanegol ar bris y contract gwreiddiol, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig blaenorol y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Adran. Bydd achos busnes yn ofynnol er mwyn cael y gymeradwyaeth hon. Bydd y Pennaeth Cyllid yn cadw cofnod o'r cyfryw gymeradwyaethau. Rhaid i unrhyw amrywiad yn unol â'r paragraff 12.7 hwn gydymffurfio â'r egwyddorion ym Mhara 12.5 uchod.

- 12.8 Ym mhob achos, rhaid i'r partiön i'r contract gytuno ar unrhyw amrywiad a, fan leiaf, rhaid i hynny gael ei gofnodi'n ysgrifenedig a'i lofnodi gan bob parti.
- 12.9 Dan unrhyw amgylchiadau, ni cheir gwneud amrywiad i gontract sydd wedi dod i ben neu sydd wedi cael ei ddirwyn i ben. Os nad oes darpariaeth yn nhelerau'r contract ar gyfer y math o amrywiad sy'n ofynnol, rhaid ceisio cyngor cyfreithiol.
- 12.10 Mae pob Prif Swyddog yn gyfrifol am sicrhau bod contractau'n cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol tra pery'r contract. Rhaid i dystiolaeth o hyn gael ei darparu i'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh os gofynnir amdani.
- 12.11 Rhaid cadw cofnodion priodol am saith mlynedd ar ôl i'r contract ddod i ben.
- 12.12 Ni chaiff contractau ganiatáu talu ymlaen llaw ac eithrio ar gyfer trwyddedau meddalwedd, cymorth caledwedd neu feddalwedd, prydles i hurbwrcasu, blaendaliadau neu warantau oni bai bod y Prif Swyddog a'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh yn cytuno fel arall; rhaid cofnodi'r cyfryw gytundeb yn ysgrifenedig. Gellir gwneud rhandaliadau yn ystod cyfnod y contract ar ôl cwblhau cyfnod o waith cyd belled â bod y gwasanaethau, y nwyddau neu'r gwaith wedi cael eu cwblhau neu'u cyflwyno. Rhaid i'r contract gynnwys amserlen dalu glir sy'n nodi cerrig milltir a dyddiadau talu, neu rhaid iddo nodi'r digwyddiadau a'r dangosyddion perfformiad a fydd yn sbarduno rhandaliad. Ni chaiff unrhyw randaliad ei wneud oni bai bod y contract yn nodi'r union amserlen dalu ac o dan ba amgylchiadau y gellir gwneud rhandaliad.
- 12.13 Rhaid i daliadau a wneir dan gontract gael eu gwneud yn unol â chynllun dirprwyo'r Gwasanaeth perthnasol.
- 12.14 Rhaid i unrhyw newid mewn prisiau'r contract cydymffurfio â'r telerau ac amodau yn y contract perthnasol. Mewn amgylchiadau eithriadol os mae newid mewn prisiau'r contract tu allan i'r telerau ac amodau yn cael eu hystyried rhaid cael ymgynghoriad llawn a chytundeb y Prif Swyddog Cyllid a TGCh.

13 Bondiau a Gwarantau

- 13.1 Bydd gwarant ddigonol neu fond perfformiad yn ofynnol;
- 13.2 Os yw natur a hyd y cytundeb yn golygu bod y risg o fethu yn ddigon uchel; neu

- 13.3 Os yw amcan gost ailsefydlu gwasanaeth, os yw'r contract yn methu, yn gymharol uchel; neu
- 13.4 Os yw sefyllfa ariannol neu dechnegol y contractwr yn golygu bod y risg o fethu yn ddigon uchel.
- 13.5 Rhaid i'r penderfyniad ynglŷn ag a yw bond perfformiad neu warant arall yn ofynnol gael ei wneud gan y Prif Swyddog ar y cyd â'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh.
- 13.6 Bydd swm y bond yn 10% o gyfanswm gwerth y contract oni chytuna'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh ar swm gwahanol.
- 13. Os yw'r contractwr yn gwmni cyfyngedig sy'n rhan o grŵp mwy, mae'n bosibl y bydd gofyn i'r cwmni daliannol terfynol ddarparu indemniad rhiant-gwmni yn lle neu'n ychwanegol at fond perfformiad neu warant arall.

14 Canllaw ar Gomisiynu'r Trydydd Sector

- 14.1 Fframwaith a fwriedir i feithrin perthnasoedd rhwng sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector gwirfoddol, y sector cymunedol a'r sector ffydd yw'r Canllaw ar Gomisiynu'r Trydydd Sector.
- 14.2 Os oes ymgeiswyr o'r sector gwirfoddol, y sector cymunedol a'r sector ffydd yn rhan o'r broses gaffael, rhaid i Swyddogion gydymffurfio â gofynion y Canllaw ar Gomisiynu'r Trydydd Sector.

15 Caffael Gwaith, Nwyddau neu Wasanaethau sydd islaw Trothwy'r UE

- 15.1 Rhaid cynnal pob caffaeliad islaw'r trothwyon a ddiffinir yn y Rheoliadau yn unol â'r atodlenni a welir isod:

Disgrifiad	Atodlen
Nwyddau neu wasanaethau	Atodlen 1A
Gwaith	Atodlen 1B
Ymgynghoriaeth	Atodlen 1C

- 15.2 Caiff trothwy'r Rheoliadau ei adolygu'n flynyddol a rhaid ceisio cyngor gan y Prif Swyddog Cyllid a TGCh ynglŷn â'r trothwy perthnasol cyn gynted â phosibl.
- 15.3 Caiff y drefn ar gyfer gweithgaredd caffael sy'n syrthio islaw'r trothwyon uchod ei hesbonio yn y Canllaw Cynllunio Caffael.
- 15.4 Rhaid hysbysu'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh o'r holl ymarferiadau caffael sy'n werth dros £25,000 gan ddefnyddio'r 'Ffurflen Cyfarwyddyd – Caffael a

Contractau' cyn i unrhyw ymarferiad ddechrau. Dylai pob ymarferiad gael ei gynnal mewn cysylltiad llawn â'r Tîm Caffael Corfforaethol.

16 Caffael Nwyddau, Gwasanaethau neu Waith uwchlaw Trothwy'r UE

- 16.1 Mae Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (fel y'i diwygiwyd gan yr Offeryn Statudol (OS), Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2020) yn berthnasol i contractau sydd uwchlaw'r trothwyon a ddiffinir yn y Rheoliadau ar gyfer cyflenwi nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Ceir gweithdrefn ar wahân, (a elwir yn 'gyfundrefn lai manwl'), ar gyfer contractau gofal iechyd a gofal cymdeithasol a contractau eraill a bennir yn Atodlen 3 o'r Rheoliadau.
- 16.2 Mae chwe math o drywyddion caffael ar gael i contractau uwchlaw trothwy'r UE:
- (a) Gweithdrefn Agored;
 - (b) Gweithdrefn Gyfyngedig (gan gynnwys drwy ddefnyddio system brynu ddynamig);
 - (c) Gweithdrefn Gystadleuol ynghyd â Negodi;
 - (d) Dialog Cystadleuol;
 - (e) Partneriaethau Arloesi a
 - (f) Threfniant yn ôl y Gofyn dan Gytundeb Fframwaith.
- 16.3 Ceir gweithdrefn ar wahân ar gyfer rhai prosesau caffael, sef y "gyfundrefn lai manwl". Dylid cael cyngor pellach ynglŷn â hyn gan y Prif Swyddog Cyllid a TGCh.
- 16.4 Rhaid cymryd cyngor gan y Prif Swyddog Cyllid a TGCh ynglŷn â'r drefn gaffael fwyaf priodol. Mae'r Canllaw Cynllunio Caffael yn rhoi arweiniad cyffredinol i'r mathau o drefniadau caffael.
- 16.5 Mae'r gweithdrefnau i'w dilyn ar gyfer pob gweithdrefn gaffael yn 16.2 (a) i (f) uchod wedi'u nodi yn y Rheoliadau ac ni ellir eu hamrywio dan unrhyw amgylchiadau. Ni ddylid defnyddio'r gweithdrefnau caffael yn (c), (d) ac (e) oni bai bod y gweithdrefnau priodol yn weithredol. Ceir gweithdrefn ar wahân ar gyfer prosesau caffael gofal iechyd a gofal cymdeithasol a contractau eraill a nodir yn Atodlen 3 o'r Rheoliadau, gweler 16.1 uchod. Rhaid i drefniant yn ôl y gofyn dan gytundeb fframwaith ddilyn y drefn a bennir gan awdurdod y fframwaith.
- 16.6 Cyn dechrau unrhyw broses gaffael sydd uwchlaw trothwyon a osodir yn y Rheoliadau, dylai Uned Comisiynu, Caffael a Rheoli Contractau'r Cyngor chwarae rhan llawn yn y broses ac os yn berthnasol y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid.

17 Dulliau Unioni am Dorri'r Rheoliadau

17.1 Mae'r canlyniadau am dorri'r Rheoliadau a'r Rheolau hyn yn sylweddol ac maent yn cynnwys

- (a) Neilltuo contractau yn dilyn datganiad o aneffeithiolrwydd;
- (b) Cosbau ariannol;
- (c) Dyfarnu iawndal a chostau i herwyr llwyddiannus;
- (d) Iawndal i'r contractwr am dor contract ymwrthodol;
- (e) Costau arafwch yn darparu'r nwyddau/gwasanaethau/gwaith sy'n ofynnol
- (f) Costau proses gaffael bellach.

17.2 Mae felly'n hanfodol glynu wrth y Rheolau hyn a'r Rheoliadau.

18 Amserlenni

18.1 Gall prosesau caffael uwchlaw'r trothwyon a ddiffinir yn y Rheoliadau gymryd o leiaf chwe mis i'w cwblhau ac weithiau dros 18 mis, yn dibynnu ar ba mor gymhleth ydynt.

18.2 Gellid bod gweithdrefn carlam ar gael i'w defnyddio mewn amgylchiadau brys ar ôl holi'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh. Rhaid i'r Prif Swyddog ardystio'r brys sy'n ei gwneud yn anymarferol i gydymffurfio â'r amserlenni a nodir.

19 Tendo Electronig

19.1 Mae meddalwedd Bravo Solutions a GwerthwchiGymru ar offer e-gyrchu'r Cyngor, a ddefnyddir gyda gweithgareddau caffael cystadleuol gwerth £25,000 a drosodd.

19.2 Rhaid i'r offer e-gyrchu a enwebwyd gael ei ddefnyddio ar gyfer pob proses gaffael sy'n werth £25,000 a drosodd oni bai bod y Prif Swyddog Cyllid a TGCh wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig ar gyfer yr eithriad neu oni bai bod y broses gaffael yn cael ei chynnal drwy fframwaith sydd â'i feddalwedd e-gaffael ei hun, pan ganiateir defnyddio'r cyfleuster e-gaffael a ddarperir gan ddarparwr y fframwaith.

20 Rheolau Cyffredinol ar gyfer Prosesau Caffael sy'n Cynnwys Eifen o Gystadleuaeth

20.1 Ar gyfer prosesau caffael gwerth £25,000 a drosodd, rhaid i'r Prif Swyddog gwblhau 'Ffurflen Cyfarwyddyd - Caffael a Chontractau'. Bydd cymeradwyaeth y Prif Swyddog Cyllid a TGCh ar y ffurflen hon yn gyfystyr â chymeradwyaeth i fwrw ymlaen a chytuno ar y broses briodol a fydd yn sicrhau gwerth am arian a chystadleuaeth ddigonol.

- 20.2 Y Prif Swyddog, ar y cyd â'r Uned Comisiynu, Caffael a Rheoli Contractau, sy'n gyfrifol am ddrafftio manyleb glir a chadarn. Rhaid i'r fanyleb nodi'n union beth mae ar y Cyngor eisiau a'r amserlenni ar gyfer cyflawni.
- 20.3 Os caniateir amrywiad, rhaid disgrifio gofynion lleiaf yr amrywiad. Rhaid ystyried lotiau lle bo'n briodol a bydd y gwasanaethau Caffael Corfforaethol yn cynghori ar sut i ddefnyddio'r dewis hwn orau.
- a) Rhaid i'r Gwahoddiad i Dendro (ITT) gynnwys, o leiaf;
 - b) Amser, dyddiad a chyfeiriad rhyngwyd ar gyfer cyflwyno tendrau;
 - c) Y wybodaeth y mae'n rhaid i'r cyflenwr ei darparu;
 - d) Amserlenni ar gyfer y prosiect;
 - e) Meini prawf dyfarnu;
 - f) Dogfennau'r contract a
 - g) Dull o ddelio ag ymholiadau yn ystod cyfnod y tendr
- 20.4 Cod Ymarfer ar Faterion Gweithlu (pan gaiff gwasanaethau cyhoeddus eu gosod allan ar gontract i drydydd parti a throsglwyddo staff)
- 20.5 Rhaid i'r ITT nodi nad oes raid i'r Cyngor dderbyn y tendr isaf nac unrhyw dendr.
- 20.6 Rhaid i'r ITT nodi sut ymdrinnir â chamgymeriadau mewn tendrau gan ddefnyddio un o'r ddwy ffordd ganlynol;
- (a) Bod y tendrwr yn cael manylion y camgymeriad(au) a welwyd wrth werthuso ac yn cael cyfle i gadarnhau heb ei newid neu dynnu'r tendr yn ôl; neu
 - (b) Newid y tendr i gywiro gwir gamgymeriad(au) cyn belled na wneir yn yr achos hwn ddim newid, diwygio nac amodi arall heblaw i'r gwir gamgymeriadau hyn.
- 20.7 Rhaid i'r ITT ddatgan bod y tendrwr, drwy gyflwyno tendr yn cytuno i delerau contract y Cyngor. Ni chaniateir trafod na negodi telerau'r contract cyn dyddiad cau'r tendr. Ar ôl dyfarnu, mae'n bosibl y bydd addasiadau'n angenrheidiol fel eithriad, er enghraifft, i roi sylw i gamgymeriad, os gwelir anghysondeb â'r fanyleb neu, yn eithriadol, pan fo amod yn mynd yn groes i'r dull gweithredu yn y sector hwnnw o'r farchnad. Rhaid ceisio cyngor cyfreithiol bob amser i sicrhau bod unrhyw addasiad yn cael ei ddrafftio'n briodol. Rhaid i addasiadau o'r fath gydymffurfio â'r egwyddorion cyffredinol a restrir isod:
- (a) a fydd yr addasiadau yn gwneud y contract yn wahanol iawn i'r un sy'n ffurfio rhan o'r ITT;
 - (b) Pe byddai'r addasiadau wedi'u cynnwys yn wreiddiol gyda'r ITT, na fyddai'r addasiad wedi caniatáu ar gyfer derbyn cynigwyr heblaw'r rhai a ddewiswyd yn wreiddiol NAC ar gyfer derbyn tendrau heblaw'r rhai a dderbyniwyd yn wreiddiol NAC wedi denu cynigwyr ychwanegol;

- (c) Nad yw'r addasiadau'n newid cydbwysedd economaidd y contract o blaid y contractwr mewn ffordd na ddarparwyd ar ei chyfer yn y contract gwreiddiol;
 - (d) Nad yw'r addasiad yn ymestyn cwmphas y contract yn sylweddol.
- 20.8 Rhaid i unrhyw addasiadau nad ydynt yn syrthio o fewn o leiaf un o'r amodau a restrir yn (a) i (d) uchod gael cymeradwyaeth y Prif Swyddog Cyllid a TGCh. Rhaid cael cyngor gan y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid cyn cytuno ag unrhyw addasiadau i delerau contract y Cyngor.
- 20.9 Ni fydd unrhyw gynnig a gyflwynir mewn cystadleuaeth a ddaw i law ar ôl y dyddiad a'r amser a nodwyd yn cael ei ystyried. Rhaid cyflwyno gohebiaeth i'r tendrwr perthnasol yn ei hysbysu na fydd y cynnig hwyr yn cael ei dderbyn.
- 20.10 Yr unig eithriad i hyn yw y gallai'r tendrwr gael ei ystyried pan fo'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh wedi'i fodloni y ceir tystiolaeth o broblemau technegol (h.y. problemau sy'n cael eu cadarnhau gan ddarparwr y feddalwedd) sydd wedi arwain at gyflwyno'r tendr yn hwyr.
- 20.11 Meini prawf gwerthuso yw'r sylfaen a ddefnyddir i roi sgoriau wrth asesu'r ymatebion. Caiff meini prawf gwerthuso tendrau eu hasesu ar:-
- a) Pris yn unig
 - b) Y Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd ar sail ansawdd a chost neu
 - c) Cost cylch oes neu
 - d) Pris sefydlog gyda meini prawf ansawdd yn unig.
 - e) Ansawdd yn unig
- 20.12 Rhaid i dendrau gael eu gwerthuso yn unol â'r meini prawf gwerthuso a nodir yn y Gwahoddiad i Dendro. Rhaid i'r holl gontractau, ac eithrio contractau lle pennwyd ymlaen llaw mai'r meini prawf priodol yw'r pris isaf, gael eu dyfarnu ar sail y mwyaf manteisiol yn economaidd neu ar sail dull cost cylch oes. Dim ond gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Prif Swyddog Cyllid a TGCh y caniateir dyfarnu ar sail pris sefydlog neu ansawdd yn unig (20.11 (d) ac (e)).
- 20.13 Rhaid i'r meini prawf gwerthuso gael eu pennu a'u cymeradwyo ymlaen llaw gan y Prif Swyddog perthnasol a'u rhestru yn nogfennau'r Gwahoddiad i Dendro, gan roi manylion canrannau'r pwysoliadau (pris/ansawdd) sy'n cael eu defnyddio. Yn ogystal, rhaid glynu'n gaeth wrth y meini prawf a pheidio â'u newid o gwbl gydol gweithdrefn dyfarnu'r contract. Gellir cael arweiniad a chymorth ar feini prawf gwerthuso perthnasol oddi wrth y gwasanaethau Caffael Corfforaethol.
- 20.14 Ni chaniateir negodi na thrafod yn gyffredinol ac eithrio ar gyfer rhai gweithdrefnau penodol sy'n caniatáu trafod neu lle mae'n nodi'n glir yn yr ITT fod negodi neu drafod yn rhan o'r broses dendro. Os cânt eu defnyddio, rhaid

i drafodaethau neu negodiadau gael eu cofnodi naill ai ar y pryd neu cyn gynted â phosibl ar ôl i'r trafod neu'r negodi ddod i ben. Caiff y swyddog cyfrifol ofyn am eglurhad gan dendrwy'r lle bo'n briodol ar y cyd â'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh.

- 20.15 Rhaid i'r broses werthuso allu bob amser ddangos bod yr holl geisiadau dilys wedi cael eu trin yn gyfartal, er mwyn i'r broses allu gwrthsefyll craffu boed hynny drwy geisiadau Rhyddid Gwybodaeth neu heriau eraill. Mae arweiniad pellach i'w gael gan y Prif Swyddog Cyllid a TGCh.
- 20.16 Rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh gadw cofnod o'r holl dendrau a ddaw i law a'i gadw ar feddalwedd e-gyrchu Bravo Solutions a GwerthwchiGymru gan gynnwys
- a) Enw'r gwasanaeth;
 - b) Enwau'r ymgeisydd;
 - c) Gwerth y tendr;
 - d) Dyddiad;
 - e) Rhesymau am unrhyw dendrau hwyr sy'n cael eu anghymwysu ac
 - f) Enwau'r rhai a wahoddwyd ond na wnaethant gyflwyno tendr.
- 20.17 Rhaid i unrhyw gais am ymestyn cyfnod tendro gael ei wneud yn ystod y cyfnod a nodir yn yr ITT fan bellaf ac mewn unrhyw achos cyn dyddiad cau'r tendr a rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh gytuno ar yr estyniad. Os caniateir dyddiad estynedig rhaid hysbysu'r holl dendrwy'r.
- 20.18 Gyda thendrau anghyflawn, os oes gwybodaeth fasnachol (e.e. Ffurflen Dendro / amlen fasnachol â phrisiau) neu wybodaeth dechnegol (e.e. amlen ansawdd) sy'n hanfodol ar gyfer y tendr heb ei chynnwys yn amlen y tendr yna ni ellir ystyried y tendr.
- 20.19 Fodd bynnag, os oes gwybodaeth gymhwysu ategol yn ymwneud â'r contract neu'r cyflenwr heb ei chynnwys yn amlen y tendr yna rhaid i'r Prif Swyddog gysylltu â'r tendrwr perthnasol i ofyn am y wybodaeth ac ar ôl iddi ddod i law gellir wedyn ystyried y tendr.
- 20.20 Rhaid i gofnodion ysgrifenedig clir gael eu cadw o'r broses asesu. Ar gyfer prosesau caffael dan y Rheoliadau, rhaid ysgrifennu adroddiad a'i gadw nes daw'r contract i ben. Rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh gynghori beth mae'n rhaid ei gofnodi yn yr adroddiad caffael.
- 20.21 Yn unol â'r arfer gorau (a chydymffurfiaeth berthnasol â'r Rheoliadau), dylai pob ymarferiad caffael ar gyfer tendrau uwchlaw'r trothwyon a osodir yn y Rheoliadau ac ar gyfer y tendrau hynny sydd â gwerth cyfunol o £25k neu fwy (nwyddau a gwasanaethau), £75k (gwaith), £5 (ymgyngoriaeth) gynnwys cyfnod segur ffurfiol rhwng datgan y penderfyniad dyfarnu wrth yr holl ymgeiswyr ac ymrwmo i gontract gyda'r tendrwr a benodwyd. Rhaid i'r cyfnod segur hwn fod yn o leiaf 10 diwrnod calendr os caiff hysbysiadau eu

hanfon yn electronig neu 15 diwrnod calendr ar gyfer hysbysiadau a anfonir drwy ddulliau eraill. Os nad yw diwrnod olaf y cyfnod segur yn ddiwrnod gwaith, caiff y cyfnod segur ei ymestyn i hanner nos ar ddiwedd y diwrnod gwaith nesaf. Os caiff canlyniad y tendr ei herio yn ystod y cyfnod segur, mae'n hanfodol bod y Prif Swyddog Cyllid a TGCh a'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid yn cael manylion y cyfryw her ar unwaith.

20.22 Os gofynnir am unrhyw wybodaeth ychwanegol yn ystod y cyfnod segur a bod y wybodaeth honno i'w datgelu i'r tendrwy (yn ychwanegol at yr hyn a ddarperir dan 20.21) rhaid cytuno ar hyn ymlaen llaw gyda'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh, gan roi ystyriaeth i ofynion unrhyw ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth.

20.23 Ni ddylai unrhyw adrodd yn ôl pellach (yn ychwanegol at yr hyn a ddarperir dan 20.21 a 20.22) gael ei wneud cyn i'r contract gael ei ddyfarnu. Dylid gwneud yn glir na all y broses adrodd yn ôl gael ei defnyddio i newid y cyflenwr/contractwr a ddewiswyd nac i ailagor y broses ddethol. Ni chaiff adrodd yn ôl pellach ond ei wneud os ceir cais gan y cyflenwr/contractwr.

21 Rhoi'r gorau iddi

21.1 Os daw llai na thri thendr i law, dylid ystyried a fydd parhau â'r broses yn sicrhau pris cystadleuol, gwerth am arian a gwasanaethau o safon. Efallai y bydd rhaid hysbysebu ymhellach.

21.2 Cyn rhoi'r gorau i broses gaffael sydd uwchlaw'r trothwy neu aildechrau'r broses honno, rhaid ymgynghori â'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh i sicrhau y rheolir risg ac y dilyniir y drefn briodol.

22 Hysbysebu

22.1 Rhaid i'r holl gyfleoedd caffael perthnasol sy'n cynnwys elfen o gystadleuaeth dros £10,000 (ymgyngoriaeth), £25,000 (nwyddau a gwasanaethau) a £75,000 (gwaith), gael eu hysbysebu ar "GwerthwchiGymru". Mae elfen o gystadleuaeth yn golygu pan mae'r cyfle caffael yn cael ei gyhoeddi er sylw cyflenwyr yn gyffredinol. Nid yw'n cynnwys sefyllfaoedd lle ceisir tendr neu ddyfynbris gan nifer cyfyngedig o gyflenwyr megis trefniant yn ôl y gofyn oddi ar gytundeb fframwaith neu geisio dyfynbrisiau/tendrau gan gyflenwyr dethol.

23 Cofrestr Contractau

23.1 Rhaid i Brif Swyddogion sicrhau bod pob Cytundeb Fframwaith neu contract a dderbynnir, sydd uwchlaw cyfanswm gwerth cyfunol y contractau canlynol, yn cael eu hysbysu wrth y Prif Swyddog Cyllid a TGCh drwy gwblhau ffurflen electronig yn amserol (ar gael ar y Fewnrwyd) yn ogystal â chopi o'r contract neu ddyfynbris wedi'i lofnodi.

Nwyddau, Gwaith a Gwasanaethau

£10,000

23.2 At ddibenion cofnodi, caiff 'contractau' eu diffinio fel cytundebau ar gyfer cyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu waith h.y. y cytundebau hynny sydd â thelerau contractiol penodol ynghlwm wrthynt. Nid yw'n cynnwys pryniant nwyddau unwaith ac am byth. Bydd y Prif Swyddog Cyllid a TGCh yn cofnodi pob trefniant perthnasol ar y Gofrestr Contractau, er mwyn eglurder, bydd y rhain yn cynnwys:

- a) Contractau neu Gytundebau Fframwaith y mae eu gwerth cyfunol uwchlaw'r symiau a ddiffinnir uchod
- b) Unrhyw ymgynghorwyr a benodir ni waeth faint yw'r gwerth
- c) Contractau rhanbarthol neu gydweithredol lle nad yw'r Cyngor yn Awdurdod Arweiniol ond lle mae'r Cyngor yn cael gwasanaethau gan y contractwr / darparwr gwasanaethau
- d) Pob contract gyda sefydliadau Trydydd Sector/ Sector Ffydd
- e) Pob grant i sefydliadau Trydydd Sector/ Sector Ffydd heblaw am grantiau unwaith ac am byth dan gynllun grantiau a weinyddir gan y Cyngor e.e. Deddf Eglwys Cymru ayb.

23.3 Nid oes angen cynnwys pryniannau 'unwaith ac am byth' cyffredinol ar gyfer cyflenwadau / gwasanaethau (sy'n syrthio tu allan i'r diffiniad o gontract).

23.4 Bydd y Gofrestr Contractau ar gael i'w gweld ar y Fewnrwyd ac mae fersiwn gryno i'w gweld ar wefan y Cyngor.

24 Llofnodi/Selio

24.1 Caiff contractau sy'n werth llai na £500,000 gael eu llofnodi gan ddau swyddog awdurdodedig yn unol â'r Cynllun Dirprwyo a geir yn y Cyfansoddiad. Rhaid i gontractau am £500,000 neu fwy gael eu selio fel gweithred gan y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid.

24.2 Caiff contractau a dyfarniwyd o dan Fframwaith Cytundebau (e.e. Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, Gwasanaethau Masnachol y Goron, YPO, ESPO) eu cwblhau mewn ffurf a rhagnodir gan y Corff Contractio (heb ots pa werth).

25 Eithriadau

25.1 Rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh gymeradwyo'r holl eithriadau i'r Rheolau hyn a dylid ceisio unrhyw eithriadau cyn i'r trafodaethau ynglŷn â'r contract ddechrau. Ni fydd y Prif Swyddog Cyllid a TGCh yn ystyried unrhyw gais am eithriad os tybir mai ymgais i guddio diffyg cydymffurfiaeth â'r Rheolau yw'r cais hwnnw. Bydd y Prif Swyddog Cyllid a TGCh yn cadw cofrestr o'r holl geisiadau a'r penderfyniadau a wnaed.

25.2 Rhaid i bob Prif Swyddog gofnodi'r holl eithriadau a gymeradwywyd ac a wrthodwyd ar gyfer eu gwasanaethau gan roi manylion natur a gwerth y

cynnig, y rheswm am yr eithriad, y cymal perthnasol yr ymgeisir am yr eithriad oddi tano ynghyd â thystiolaeth o gymeradwyaeth / wrthodiad ffurfiol gan y Prif Swyddog Cyllid a TGCh / Bwrdd Gweithredol.

25.3 Yr unig eithriadau i'r prosesau tendro a amlinellir yn y Rheolau hyn yw'r rhai a welir isod. Rhaid cydymffurfio â holl rannau eraill y broses gaffael bob amser.

25.4 Nid oes angen i'r eithriadau canlynol gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Prif Swyddog Cyllid a TGCh:

(a) Mae'r Cyngor yn defnyddio contractau'r llywodraeth e.e. cytundebau fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC) neu rai a drefnwyd gan gonsortiw, cydweithrediad neu gorff tebyg, gan gynnwys Llywodraeth Cymru o safbwynt contractau cefnffyrdd ac eraill. Yn yr achosion hyn, tybir bod corff yr un mor gyfrifol yn dilyn ei weithdrefnau tendro ei hun yn amodol ar gael cadarnhad ymlaen llaw gan y Cyngor yn ôl yr angen.

(b) Mae contract yn cael ei wneud gan ysgol yn y Fwrdeistref Sirol sy'n gweithredu dan drefniadau Ariannu Teg.

5.5 Caiff yr eithriadau canlynol eu cymeradwyo yn amodol ar gyflwyno cais ysgrifenedig ymlaen llaw i'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh i'w ystyried a'i benderfynu ganddo mewn cydweithrediad ag Aelodau fel y bo'n briodol. Caiff eithriad ei ganiatáu:

(a) Pe na cheid gwir gystadleuaeth gan nad oes dewis arall rhesymol boddhaol ar gael ac:

(i) Mae'r eitemau yn berchnogol neu'n cael eu gwerthu am bris sefydlog; neu

(ii) Mae'r prisiau'n cael eu rheoli gan sefydliadau masnachu neu orchymyn y llywodraeth; neu

(iii) Mae'r gwasanaethau dan sylw, ym marn y Prif Swyddog perthnasol, mor arbenigol fel nad yw gwir gystadleuaeth yn ymarferol; neu

(iv) Resymau eraill sy'n bodloni'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh.

(b) Pe byddai angen sefydlu'r contract ar gymaint o frys fel nad yw tendrau'n ymarferol bosibl. Yn yr achos hwn rhaid i'r Prif Swyddog dan sylw ardystio'r brys wrth y Prif Swyddog ac adrodd ar hynny gerbron cyfarfod nesaf y Bwrdd Gweithredol. Dylid nodi nad yw brys fel arfer yn rheswm derbyniol am beidio â chydymffurfio. Ni fydd brys y gellid bod wedi ei osgoi drwy ragweld a chynllunio rhesymol yn dderbyniol fel rheswm digonol am wyro oddi ar y drefn arferol; neu

- (c) Os yw'r Cyngor yn cyhoeddi grant i gefnogi 'costau craidd' sefydliad, gan fod gweithgareddau'r sefydliad hwnnw yn cefnogi neu'n ategu amcanion y Cyngor, fodd bynnag, lle bo potensial i fwy nag un sefydliad fod yn gymwys am y grant, yna'r disgwyl fel arfer yw y bydd ymarferiad caffael yn unol â'r Rheolau hyn yn cael ei gynnal. Ym MHOB amgylchiad, cyn rhoi grant fel eithriad, rhaid cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Prif Swyddog Cyllid a TGCh.

26 Ymestyn Contractau

- 26.1 Gellir ymestyn contract cyn y dyddiad y daw i ben dim ond os yw'n bendant yn unol â'r telerau ac os nad yw'r cyfryw estyniad yn peryglu'r sail y cafodd y contract ei gaffael arno'n wreiddiol.
- 26.2 Gydag angen busnes brys, os bydd y Bwrdd Gweithredol yn rhoi cymeradwyaeth i estyniad tymor byr i gontract cyfredol lle bo cyfanswm gwerth y contract, gan gynnwys y cyfnod estynedig, yn is na'r trothwyon perthnasol yn y Rheoliadau ar gyfer cyflenwadau, gwasanaethau a gwaith pan fo'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried cais am ymestyn y contract.
- 26.3 Ym mhob achos os bwriedir ymestyn contract cyfredol, rhaid ceisio cyngor ac arweiniad gan Swyddogion Caffael neu'r Gwasanaethau Cyfreithiol cyn dechrau trafod gyda chyflenwyr neu gontractwyr ynglŷn â chyfnod estynedig.
- 26.4 Os nad yw telerau'r contract
- a) yn darparu'n benodol ar gyfer estyniad heblaw yn 26.2 uchod neu
 - b) ar ôl i gontract ddod i ben neu
 - c) os yw'r cyfnod estynedig yn newid y sail y cafodd y gwasanaeth, y cyflenwad neu'r gwaith ei gaffael arno'n wreiddiol
 - d) pe byddai'r cyfnod estynedig yn arwain at fod cyfanswm gwerth y contract yn uwch na'r trothwyon perthnasol yn y Rheoliadau ar ddechrau'r cyfnod estynedig neu
 - e) pe byddai'r cyfryw gyfnod estynedig yn mynd yn groes i'r rheoliadau statudol, yna ni ellir ei ymestyn.

27 Talu Anfonebau Dilys

- 27.1 Mae gan y Cyngor ddyletswydd dan y Rheoliadau gyda phob contract cyhoeddus (pa un a yw uwchlaw neu islaw y trothwy) i dalu anfonebau dilys cyn pen 30 diwrnod.
- 27.2 Mae gwybodaeth bellach am dalu anfonebau i'w gweld yn Adran 5.7 o'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol.

28 Caffael Cynaliadwy

- 28.1 Gyda phob contract sy'n werth dros £2,000,000 bydd rhaid cyflenwi enillion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar fuddsoddiad drwy sicrhau budd i'r gymuned.
- 28.2 Gyda phob contract sy'n werth llai na £2,000,000 dewisol ydy cyflenwi enillion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar fuddsoddiad drwy sicrhau budd i'r gymuned. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r contractau hyn, bydd yn ddymunol sicrhau budd perthnasol i'r gymuned.
- 28.3 Ble mae gofyn i gontractwr sicrhau budd perthnasol i'r gymuned rhaid iddynt cwblhau'r Pecyn Budd Cymunedol fel rhan o'i oblygiadau cytundebol.
- 28.4 Rhaid i bob cais am Fudd i'r Gymuned cydymffurfio â'r rheolau a osodwyd gan y Prif Swyddog Cyllid a TGCh a weinyddwyd can yr Uned Comisiynu, Caffael a Rheoli Contract.
- 28.5 Gyda phob contract sy'n werth dros £500,000 am Nwyddau, Gwasanaethau a Gwaith rhaid i'r Cyngor ystyried materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol wrth wneud penderfyniadau caffael gan ddefnyddio'r templed asesiad risg cynaliadwyedd.
- 28.6 Mater i'r Prif Swyddog perthnasol fydd cynnwys gofynion Caffael Cynaliadwy a gyfyd o Aseiad Risg Cynaliadwyedd (SRA) dan 28.4, ar ôl ystyried unrhyw effaith ariannol a geir o gynnwys y cyfryw ofynion.

29 Penodi Bargyfreithwyr

- 29.1 Yn achos ymrwymo Bargyfreithwyr cytunir ar lefel y ffioedd sy'n daladwy fel arfer drwy drafod neu drwy benodi drwy gyfrwng unrhyw Fframwaith gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol sydd ar gael yn hytrach na drwy gystadleuaeth o fath arall.

30 Penodi Ymgynghorwyr

- 30.1 Fel rhan o'r broses gyfiawnhau a chymeradwyo, y Prif Weithredwr neu Brif Swyddog yn unig sy'n gallu penodi Ymgynghorwyr. Mae gwybodaeth am y terfynau a'r gofynion caffael i'w chael yn Atodlen 1C i'r Rheolau.
- 30.2 Rhaid i bob penodiad sydd â gwerth cyfunol o dros £5,000, ac eithrio penodi Bargyfreithwyr (29.1) gael ei wneud mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol priodol oni bai bod gwrthdaro buddiannau ac os felly, dylid gwneud hynny mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd neu'r Dirprwy Arweinydd.
- 30.3 Rhaid i'r Pennaeth Cyllid baratoi adroddiad blynyddol ar gyfer yr holl aelodau; bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys manylion yr holl benodiadau, manylion gwerthuso perfformiad gan gynnwys perfformiad yn erbyn canlyniadau a nodwyd ynghyd â'r union gost a chyfnod y penodiad.

- 30.4 Gyda phob proses ymrwymo ymgynghorwyr sy'n werth dros £5,000 rhaid llenwi Ffurflen Prif Swyddog Cyllid a TGCh Ymgynghoriaeth (CPC1) a'i chyflwyno i'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh cyn cymryd unrhyw gamau i ymrwymo neu cyn i'r ymarferiad caffael ei hun ddechrau.
- 30.5 Cyn dechrau unrhyw broses i gaffael Ymgynghorwyr rhaid i fanyleb a dogfennau'r tendr gynnwys:
- a) Nodyn clir o'r anghenion, y canlyniadau a'r canlyniadau a dylai'r rhain lle bo modd fod yn gydnaws â'r fersiwn gyfredol o Gynllun y Cyngor
 - b) Briff ysgrifenedig ar gyfer y prosiect gan gynnwys amserlenni
 - c) Peirianwaith asesu pris ac ansawdd addas i'w gynnwys yn nogfennau'r tendr ac yn ddiweddarach i werthuso tendrau.
 - d) Cytundeb ysgrifenedig ffurfiol neu lythyr ymrwymo manwl.
- 30.6 Fel rhan o'r ymarferiad caffael, rhaid i'r swyddog awdurdodi (30.1) sy'n gwneud y penodiad ganfod a yw'r Ymgynghorydd, neu unrhyw unigolyn a allai fod yn cyflawni'r ymrwymiad ar ran yr Ymgynghorydd, wedi gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn y ddwy flynedd cyn y penodiad. Ni fydd hyn yn atal y Cyngor rhag defnyddio'r ymgynghorydd, ond bydd yn cael ei ystyried yn y broses benodi. Os gwelir bod Ymgynghorydd wedi bod yn gweithio i'r Awdurdod, yna rhaid i'r Swyddog cyfrifol gofnodi'r manylion a hysbysu'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh fel rhan o'r Ffurflen Benodi.
- 30.7 Yn syth ar ôl penodi Ymgynghorydd, dylai'r swyddog awdurdodi (30.1) lenwi'r ffurflen Penodi Ymgynghorydd (CPC2) a'i hanfon at y Prif Swyddog Cyllid a TGCh. Bydd pob penodiad, faint bynnag yw ei werth, yn cael ei gofrestru ar y Gofrestr Contractau Corfforaethol.
- 30.8 Dylai'r cytundeb ysgrifenedig ffurfiol neu'r llythyr ymrwymo manwl gael ei lofnodi gan y Cyngor a'r Ymgynghorydd cyn dechrau'r gwaith.
- 30.9 Ar ôl i'r gwaith ddechrau rhaid i'r swyddog awdurdodi (30.1) sicrhau bod proses barhaus, effeithiol ar waith i reoli'r contract, gan gynnwys:
- a) Bod taliadau ffioedd a chynnydd yn cael eu monitro a bod pob taliad yn cael ei wneud am waith a gwblhawyd a'u bod yn unol â chytundeb y contract fel y'i llofnodwyd.
 - b) Perfformiad yn erbyn canlyniadau penodol
 - c) Gweithredu unrhyw argymhellion a wnaed a bod y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i lenwi'r ffurflen Gwerthuso Perfformiad.
 - d) Y cymerir camau ar unwaith i roi sylw i unrhyw ddiffygion mewn perfformiad.
 - e) Bod yswiriant yr ymgynghorydd yn ddiweddar a'i fod yn parhau i fodloni gofynion y Cyngor.
- 30.10 Yn syth ar ôl cwblhau neu derfynu cytundeb Ymgynghorydd, dylai'r swyddog awdurdodi (30.1) sy'n gyfrifol am y cytundeb lenwi'r ffurflen Gwerthuso

Perfformiad Ymgynghorydd (CPC3) a'i hanfon ymlaen at y Prif Swyddog Cyllid a TGCh. Bydd hon yn cynnwys manylion gwerthuso perfformiad gan gynnwys perfformiad yn erbyn canlyniadau penodol a'r gwir gost a chyfnod y penodiad.

Nwyddau a Gwasanaethau

Os yw amcan gostau unrhyw nwyddau neu wasanaethau'n is na throthwy'r UE, rhaid gwahodd dyfynbrisiau fel yr amlinellir isod;

Amcan o Gyfanswm Gwerth y Contract		NWYDDAU A GWASANAETHAU
O	I	
£0	£10,000	Rhaid i bob pryniant ddangos gwerth am arian ac felly mae'n rhaid i gontractau corfforaethol gael eu defnyddio pan fyddant ar gael. Os nad ydynt ar gael, neu gyda phryniant unigol, rhaid cael tystiolaeth o werth am arian
>£10,000	£25,000	DYFYNBRISIAU ANFFURFIOL – O LEIAF 3 electronig, ysgrifenedig, ffacs, e-bost neu ddyfynbrisiau dros y ffôn wedi'u cofnodi.
>£25,000	Terfyn y Rheoliadau	TENDRAU FFURFIOL – O LEIAF 3 (drwy feddalwedd e-gyrchu, amser a dyddiad dychwelyd pendant ar gyfer eu derbyn a'u hagog). Rhaid defnyddio GwerthwchiGymru
<p>Sylwer:</p> <p>1. Y rhain yw'r gofynion lleiaf ar gyfer pob gwaith, gellir gostwng y trothwy.</p>		

Gwaith

Os yw amcan gostau'r gwaith yn is na throthwy'r UE, rhaid gwahodd dyfynbrisiau fel yr amlinellir isod

Amcan o Gyfanswm Gwerth y Contract		GWAITH
O	I	
£0	£10,000	Rhaid i bob pryniant ddangos gwerth am arian ac felly mae'n rhaid i gontractau corfforaethol gael eu defnyddio pan fyddant ar gael. Os nad ydynt ar gael, neu gyda phryniant unigol, rhaid cael tystiolaeth o werth am arian
>10,000	£75,000	DYFYNBRISIAU ANFFURFIOL – O LEIAF 3 electronig, ysgrifenedig, ffacs, e-bost neu ddyfynbrisiau dros y ffôn wedi'u cofnodi.
>£75,000	Terfyn y Rheoliadau	DYFYNBRISIAU FFURFIOL – O LEIAF 3 (drwy feddalwedd e-gyrchu, amser a dyddiad dychwelyd pendant ar gyfer eu derbyn a'u hagog). Rhaid defnyddio GwerthwchiGymru
<p><u>Sylwer:</u> 2. Y rhain yw'r gofynion lleiaf ar gyfer pob gwaith, gellir gostwng y trothwy.</p>		

Ymgynghoriaeth

Os yw amcan gostau'r gwaith yn is na throthwy'r UE, rhaid gwahodd dyfynbrisiau fel yr amlinellir isod

Amcan o Gyfanswm Gwerth y Contract		YMGYNGHORIAETH
O	I	
£0	£5,000	Rhaid cyflwyno tystiolaeth i ddangos y bydd gwerth am arian.
>£5,000	Terfyn y Rheoliadau	TENDRAU FFURFIOL (drwy feddalwedd e-gyrchu, amser a dyddiad dychwelyd pendant ar gyfer eu derbyn a'u hagor). O LEIAF 3 Rhaid defnyddio GwerthwchiGymru
Sylwer: 1. Y rhain yw'r gofynion lleiaf, gellir gostwng y trothwy.		